**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 16eg Gorffennaf, 2024, 2.00 pm**

**PRESENT:** Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Sara Burch, Jan Butler, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Dale Rooke, Ann Webb

Cynghorydd Sirol: Paul Pavia, Tony Kear

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Pennaeth Cynllunio |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Amy Longford | Rheolwr Treftadaeth |
| Paige Moseley | Solicitor |
| John Pearson | Rheolwr Democratiaeth Leol |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol: Emma Bryn, John Crook

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 4 Mehefin 2024 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. **Cais DM/2020/01438 - Datblygu 15 annedd (9 fforddiadwy a 6 marchnad agored) a datblygiadau a seilwaith cysylltiedig arall. Tir oddi ar Heol Tŷ Gwyn, Felin Fach, NP4 0HU.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Ailgyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn y penderfyniad i gytuno ar gynnig i ohirio'r cais yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ddydd Mawrth 4 Mehefin 2024. Y rheswm am y gohiriad oedd galluogi ymgynghoriad ffurfiol gyda Chyngor Cymuned Llanbadog yn ogystal â'r Cynghorwyr Sir Tony Kear a Meirion Howells (Ward ddeuol Llanbadog a Brynbuga).

Pan gyflwynwyd y cais i ddechrau ym mis Hydref 2020, roedd y safle o fewn Cyngor Cymuned Goetre Fawr a Ward Goetre Fawr. Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad bryd hynny gyda Chyngor Cymuned Goetre Fawr ac wedyn Aelod Ward Goetre Fawr, Cynghorydd Sir Bryan Jones.
Fel y nodwyd ym mharagraff 1.3 adroddiad y cais, cafodd y cais ei roi ar encil ers dechrau 2021. Fodd bynnag, mae'r newidiadau gweinyddol i ffiniau wardiau a phlwyfi ym mis Mai 2022 yn golygu na ymgynghorwyd â'r Cyngor ac Aelodau newydd.

Yn dilyn gohirio yng nghyfarfod Cynllunio Mehefin 2024, cynhaliwyd yr ymgynghoriadau perthnasol ar 4 Mehefin 2024.

https://www.youtube.com/live/LYMFQ4VELzc?si=Px9iPFjZwqXfV2JO&t=122

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a wnaed, cynigiodd y Cynghorydd Sir Jan Butler ac eiliodd y Cynghorydd Sir Sara Burch y dylid cymeradwyo cais DM/2020/01438 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Pan roddwyd y mater i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dros gymeradwyo | - | 11 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 2 |
| Ymatal | - | 0 |

Cafodd y cynnig ei gario.

Ni wnaeth y Cynghorydd Sir Sue Riley bleidleisio ar y cais gan ei bod yn hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

Penderfynwyd cymeradwyo cais rhif DM/2020/01438 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106

4. **Cais DM/2024/00549 - Cais cynllunio llawn i newid defnydd o C2 (Cartref Gofal Preswyl) i Sui Generis ar gyfer llety brys dros dro i'r digartref a gwaith cysylltiedig. Cartref Preswyl Severn View, Heol Mounton, Cas-gwent, NP16 5BS.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn destun amod ychwanegol yn ymwneud â goleuadau.

https://www.youtube.com/live/LYMFQ4VELzc?si=6FhfGfrb2TNJzz6m&t=1785

Wrth nodi manylion y cais a'r farn a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Tony Easson ac eiliodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell y dylid cymeradwyo cais DM/2024/00549 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn destun amod ychwanegol yn ymwneud â goleuadau.

Pan roddwyd y mater i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dros gymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 1 |
| Ymatal | - | 0 |

Cafodd y cynnig ei gario.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 16eg Gorffennaf, 2024, 2.00 pm**

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/00549 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn destun amod ychwanegol yn ymwneud â goleuadau.

5. **Cais DM/2024/00355 - Creu Safle Teithwyr sy'n cynnwys pedwar llain bwrpasol yn ymwneud â theuluoedd gydag un garafán sefydlog a theithiol ac ystafell ddydd/cyfleustra fesul llain, mynediad llifogydd brys, gosod gwaith trin preifat a gwelliannau ecolegol (rhannol ôl-weithredol) - Stablau Newydd, tir gyferbyn â Thŷ Llancaio (Llancayo House), Heol y Fenni, Llancaio, Brynbuga**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer ei dderbyn gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn destun asesiadau priodol dan y Rheoiliadau Cynefinoedd a gytunir gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

https://www.youtube.com/live/LYMFQ4VELzc?si=rCcBYAfFLSg2Kuo2&t=6376

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Dale Rooke ac eiliodd y Cynghorydd Maureen Powell y dylid cymeradwyo cais DM/2024/00355 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar gytuno ar asesiad priodol dan y Rheoliadau Cynefinoedd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Pan roddwyd y mater i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dros gymeradwyo | - | 14 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/00355 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar gytuno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar asesiad priodol dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

6. **ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniadau Apeliadau a Dderbyniwyd:**

https://www.youtube.com/live/LYMFQ4VELzc?si=G6pYYb_wR1aLwXGz&t=9662

**6.1. Yr Hen Gyfnewidfa Ffôn, Heol Crug, Crug.**
Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliadau safe a gynhaliwyd yn Yr Hen Gyfnewidfa Ffôn, Heol C`+``rug, Crug ar 3 Mai 2024.

Nodwyd y cafodd yr apêl ei gwrthod.